# <u>Cyngor Cymuned Llanycil</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 12fed 2019 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Jones (Cadeirydd), Euros Puw, Gwynfryn Williams, , Gwynedd Jones, Rhys Richards, Arwel Davies, Geraint Davies, Huw Charles a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jean Roberts a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**

<u>a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-</u>
i) Gwter ger Fedw Arian - cafwyd cadarnhad fod y gwter yn cael ei glirio'n rheolaidd ac roedd y swyddog am drafod y mater ymhellach gyda'r tirfeddiannwr.
ii) Pentref Parc - roeddynt yn ymwybodol o'r dŵr yn codi o flaen tai Tai'n Rhos ac roeddynt am drefnu i'r gweithlu archwilio'r lleoliad.
iii) Ffosydd wedi tagu ger giât Boch Rhaeadr, Arenig a rhwng Llanerch Las a Cynythog Ganol, Llidiardau – roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi gwneud taflen waith i'r gweithlu ddelio gyda'r ffosydd.

<u>b) Annibyniaeth i Gymru.</u>
Cynigwyd ac eiliwyd i drafod yr ymgyrch Annibyniaeth i Gymru. Yn dilyn trafodaeth cymerwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r ymgyrch.

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Partneriaeth Penllyn /Cwmni Pum Plwy Penllyn.</u>
i) Derbyniwyd copïau o gofnodion y cyfarfodydd diwethaf.
ii) Gwahoddiad i noson gymdeithasol yng Nghanolfan Henblas, 14/11/19. Cytunodd Geraint Jones i fynychu'r noson ar ran y Cyngor Cymuned.

<u>b) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro ger Cwr y Waun, Rhyduchaf ar y 7fed a 8fed o Dachwedd. Mynegwyd siom mae dim ond y diwrnod cyn y gwaharddiad a dderbyniwyd yr ohebiaeth swyddogol. Roedd y clerc wedi derbyn ymholiad ffôn cyn hyn gan un o'r trigolion lleol ac yn dilyn galwad i Dŵr Cymru roedd wedi cael cadarnhad fod bosib i'r bws ysgol a cherbydau argyfwng gael mynediad dros y safle.
ii) Meysydd Chwarae yn eich Cymuned - oherwydd y toriadau ariannol yr oedd Cyngor Gwynedd yn ei wynebu roeddynt yn edrych ar opsiynau unai i drosglwyddo neu weithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor Cymuned neu grŵp cymunedol i gymryd cyfrifoldeb o'r meysydd chwarae. Mynegwyd siom fod Cyngor Gwynedd yn ystyried y camau hyn ac yn mynd erbyn ei Cynllun Llesiant Lleol eu hunain sy'n anelu i wella lles cymdeithasol y cymunedau.

**<u>v) Ceisiadau Cynllunio.</u>**
a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

NP5/72/LU142H – Cyfreithiol (Presennol) am ddefnydd adeilad fel anecs preswyl. Rafel, Parc.

NP5/72/134K – Adeiladu byngalo ar wahan (Anghenion lleol fforddiadwy). Llain 2 Maes Gwyn, Rhyduchaf.
NP5/72/134L – Adeiladu byngalo ar wahan (Anghenion lleol fforddiadwy). Llain 4 Maes Gwyn, Rhyduchaf.

Cytunwyd i gefnogi'r ceisiadau. Gyda cheisiadau Maes Gwyn nodwyd fod angen gwneud yn siŵr fod y cysylltiad carthffosiaeth bresennol yn gallu ymdopi a gwastraff y ddau fyngalo ychwanegol.

**vi) Materion Ariannol**

a) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
Cyngor Gwynedd (Archwiliad Mewnol).

b) Ceisiadau ariannol
Derbyniwyd cais ariannol gan Dawns i Bawb. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-
i) Mynegwyd pryder fod draen ger yr Hen Bost, Parc yn beryg o orlifo mewn tywydd garw. Bu i rhai o'r trigolion lleol fod ar eu traed rhan fwyaf o'r nos ar y 25/10/19 yn gwneud yn siŵr nad oedd y draen yn tagu a bod y dŵr yn gorlifo i mewn i'r anneddau cyfagos ac i'r Neuadd.
ii) Canghennau'r coed ger chwarel Arenig a Bodarenig angen eu torri'n ôl gan eu bod yn dod drosodd i'r ffordd.
iii) Canllawiau Pont Rhydyfen, Arenig angen eu trwsio.
iv) Dŵr yn dod i'r ffordd ar yr A4212, ger Maen Mawr, Arenig (rhwng Craig Ronwy a Rhydyfen). Gyda'r gaeaf o'n blaenau mae peryg i'r dŵr yma rewi ac achosi damwain.
v) Culfet ar riw Plas Madog, Glanllyn angen eu clirio.
vi) Nid ydi'r gwter a osodwyd ger Preswylfa a Gwalia, Parc yn gweithio'n iawn ac roedd pwll o ddŵr yn casglu yno.
vii) Roedd dŵr yn casglu rhwng y bont a'r blwch ffôn ym mhentref Parc.
vii) Twll archwilio wedi suddo ac yn dod allan o'i le ar yr allt wrth ddod fewn i bentref Rhyduchaf. Ar adegau mae'r gorchudd yn codi ac roedd cerbydau yn gorfod croesi i ochr arall y ffordd i'w osgoi.
viii) Gwrych Bryn Tirion, Maesywaen yn dod drosodd i'r ffordd ac roedd cerbydau yn gorfod croesi i ochr arall y ffordd i'w osgoi.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Rhagfyr 10fed yn Neuadd Maesywaen am 8.00 y.h.